**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 – Adran F**

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Chwefror 2001 i'w hateb ar 13 Mawrth 2001**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

**1. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa gynlluniau sydd ganddo i drafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a chydweithwyr eraill yn San Steffan, y goblygiadau o gau Dairy Crest, Tre Ioan, Caerfyrddin, er mwyn medru ystyried datblygiad a chydlyniad polisïau Materion Gwledig, Datblygu Economaidd, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer yr ardal honno yn y dyfodol? (OAQ10256)

**2. Dafydd Wigley (Caernarfon):** A wnaiff ddatganiad byr am y trafodaethau y mae wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i godi proffil Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn y DU? (OAQ10260)

**3. Phil Williams (Dwyrain De Cymru):** A all wneud datganiad ar flaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer datblygu polisïau yn ystod y 12 mis nesaf? (OAQ10249)

**4. Gareth Jones (Conwy);** A wnaiff ddatganiad ar bwysigrwydd cyd-lynu polisiau'r Cynulliad er mwyn adeiladu isadeiledd effeithiol yng Nghymru.(OAQ10258)

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Sut fydd e'n parhau i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofynion cynhwysiant cymdeithasol, datblygu economaidd a thai priodol ar gyfer Cymru? (OAQ10259)

**6. David Davies (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyflwyno cais ffurfiol i'r Comisiwn Ewropeaidd am gyllid o dan erthygl 33, indent 12 o Reoliad 1257/1999 y Cyngor i gael ei gynnwys yn y cynllun datblygu gwledig ar gyfer Cymru. (OAQ10242)

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Changhellor y Trysorlys mewn perthynas â chyllideb y DU a'r modd y mae'n berthnasol i Gymru. (OAQ10253)

**8. Peter Law (Blaenau Gwent):** Ym mha fodd y bydd dyraniad Llywodraeth Cymru o wahoddiadau i Arddwestau Brenhinol yn cael eu dosbarthu. (OAQ10240)

**9. Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** A all wneud datganiad am y trafodaethau diweddar rhwng y Cynulliad a'r Cyngor Partneriaeth Busnes ynghylch cynyddu'r lleiafswm cyflog yng Nghymru? (OAQ10252)

**10. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr Ysgrifennydd Cartref a/neu gweinidogion eraill llywodraeth y DU am effaith y Mesur Heddlu a Chyfiawnder Troseddol ar Gymru. (OAQ10238)

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae ei weinyddiaeth yn eu cymryd i hybu delwedd Cymru. (OAQ10261)

**12. Val Feld (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff wneud datganiad ar hyd a lled polisi'r Cynulliad ar ehangu'r Undeb Ewropeaidd. (OAQ10257)

**13. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff ddatganiad am y trafodaethau a gafodd yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am y modd y caiff Cymru ei chynrychioli dramor. (OAQ10245)

**14. Brian Gibbons (Aberafan);** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cynnal trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y dulliau posibl o wella hawliau gweithwyr i gael eu hysbysu am benderfyniadau mawr fydd yn effeithio arnynt. (OAQ10244)

**15. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Cyngor Partneriaeth Busnes ynghylch sefydlu cysylltiadau cryfach â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ10246)

**16. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa drafodaethau a gafodd â'r Taoiseach yn ystod ei ymweliad diweddar ynghylch datblygu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. (OAQ10243)

**17. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y targedau ar gyfer creu swyddi fel y'u nodir yn Gwell Cymru. (OAQ10262)

**18. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff adrodd yn ôl ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â Chanolfan Ewropeaidd Cymru ynghylch eu blaenoriaethau

fel y’u nodir yn eu strategaeth lobïo flynyddol. (OAQ10241)

**19. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad am y camau a gymerwyd tuag at gyflawni’r amcanion a nodir yn Rhaglen Fusnes Flynyddol y Llywodraeth y gwnaed datganiad yn ei gylch i’r Cynulliad ar 21 Tachwedd 2000. (OAQ10254) **TYNWYD YN OL**

**20. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ar ei rôl fel

cydgysylltydd datblygu polisi. (OAQ10255) **TYNWYD YN OL**

**21. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Fel y Gweinidog sydd yn rheoli dimensiwn Ewropeaidd polisi’r Cynulliad, pa gamau y mae’n eu cymryd er mwyn sicrhau bod Cymru’n cael ei chynrychioli’n llawn ac yn ddigonol yn yr UE. (OAQ10247)

**22. Alun Cairns (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y camau a gymerwyd tuag at gyrraedd targedau Gwell Cymru. (OAQ10237)

**23. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad byr ar sut y mae’n ceisio hyrwyddo tryloywder o fewn Llywodraeth Cymru. (OAQ10248)

**24. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar ei rôl fel cydgysylltydd datblygu polisi ar gyfer materion traws-bynciol. (OAQ10251)

**25. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi’u cael â chynrychiolwyr yr UE ynghylch codi proffil Cymru yn Ewrop. (OAQ10250)

**26. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Prif Weinidog a gweinidogion Llywodraeth San Steffan ynghylch cryfhau delwedd Cymru yn yr Unol Daleithiau. (OAQ10276)